Mwynhau gwneud marciau

Trosolwg

Mwynhewch ychydig o hwyl wrth ddarganfod deunyddiau naturiol ar gyfer gwneud marciau a chreu symbolau yn yr awyr agored, sy'n brofiadau sy'n hybu ysgrifennu mwy ffurfiol yn nes ymlaen.



Gweithgareddau

Ceisiwch gynnwys y plant wrth greu amrywiaeth o 'baent' awyr agored, e.e. mwyar/aeron wedi'u gwasgu, pridd gwlyb, siarcol a phwll mwdlyd.

Gall deunyddiau naturiol megis moch coed a brigau, yn ogystal â brwshys a dwylo, fod yn offer gwneud marciau. A beth am rwbio glaswellt a chrafu cerrig?

Mae defnydd, papur leinio, waliau, llwybrau, llen glir ar gyfer cawod a llechi ar gyfer toeau'n gynfasau gwych ar gyfer gwneud marciau.

Offer

- 'Paent' a wnaed gan y plant
- Amrywiaeth o offer gwneud marciau
- Amrywiaeth o gynfasau gwneud marciau
- Bwcedaid o ddŵr i olchi dwylo ac offer os oes angen

Cwestiynau allweddol

Beth rydych wedi'i ddarlunio?
Sut y gwnaethoch chi'r marciau hyn?
Allwch chi ddod o hyd i offer eraill i'w defnyddio?
Beth fyddai'n digwydd, yn eich barn chi, pe baem yn ychwanegu rhagor o ddŵr neu'n cymysgu'r paentiau?

Deilliannau dysgu

- Gwyddoniaeth – darganfod priodweddau deunyddiau, achos ac effaith.
- Defnyddio sgiliau echddygol bras a manwl.
- Iaith – marciau fel sail i ysgrifennu. Rhannu syniadau a deilliannau.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Hybu ffurfio llythrennau gan ddefnyddio deunyddiau naturiol.
- Archwilio patrymau sy'n digwydd ym myd natur drwy'r tymhorau